**Cwestiynau ar gyfer Canolfannau Iaith Gynradd ac Uwchradd**

Bydd yr ymchwiliad yn:

i. manylu ar weithrediad Polisi Iaith yr Awdurdod yn ysgolion cynradd ac uwchradd dalgylchoedd penodol.
ii. gweld sut y cymhwysir elfennau allweddol y polisi ym mholisïau'r gwahanol ysgolion ac yn arbennig o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol.
iii. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg"* ymhob ysgol.
iv. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd*"

1. **Beth yw capasiti'r Canolfannau Iaith?**

2. **Yn eich barn chi, ydi hyd y cyrsiau yn ddigonol? Os na , beth yw'r drefn wedyn?**

3. **Beth ydi'r ôl-ofal ydych yn ei gynnig a sut ydych yn sicrhau gweithrediad y rhaglen ôl-ofal**
    a. **Oes capasiti digonol ar gyfer darparu ôl-ofal i'r disgyblion?**

4. **Beth yw eich barn chi am berfformiad bugeiliol yr ysgolion ar ôl i'r disgyblion sydd wedi mynychu canolfan iaith ddychwelyd i'r ysgol?**
    a. **A oes gwahaniaethau yn y perfformiad o ardal i ardal?**

5. **Yn eich barn chi, ydi athrawon yr ysgolion yn cael digon o amser i fynychu'r hyfforddiant yr ydych yn ei gynnig i'w cynorthwyo yn eu rôl fugeiliol ?**

6. **Eglurwch y math o hyfforddiant mae staff y Canolfannau Iaith wedi mynychu.**

7. **Yn eich barn chi, a oes rôl bellach i'r cyd-gysylltydd iaith a'r cydlynydd iaith?**

8. **Beth yw'r prif rwystrau i'r Canolfannau Iaith?**